# Teithiau Penllyn | Go Bala

**T14**

Taith Canŵio Llyn Tegid | Bala Lake Canoe Trail

Cymdeithas Twristiaeth y Bala a Phenllyn | Bala & Penllyn Tourism Association



Taith Canŵio | Canoe Trail

## Crynodeb

Teithiau canwio ar Lyn Tegid, y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru a thair cadwyn o fynyddoedd yn y cefndir. Am fod y llyn yn rhan o warchodfa natur bwysig mae cychod mawrion wedi eu gwahardd. Gyda mynediad rhwydd o lawer o fannau parcio gellir mwynhau llawer taith ar y llyn.

Mae Cymdeithas Dwristiaidd y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth yn y daflen hon ond mae'n bosibl fod rhai ffeithiau wedi newid. Os ydych yn dewis padlo ar afon neu lyn yna chi sy'n gyfrifol am eich penderfyniad. Mae canŵio a chaiacio yn chwaraeon 'â risg tybiedig' ac mae'n rhaid i chi ysgwyddo cyfrifoldeb am eich diogelwch eich hun, dylech gymryd sylw o unrhyw rybuddion, dilynwch God y Glannau a darllenwch yr wybodaeth Diogelwch ac Ymddygiad ar wefan www.GoBala.org (Gwybodaeth/Diogelwch)

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth i Dwristiaid: | www.VisitBala.org neu www.ymweldageryri.info |
| Gwybodaeth am Deithiau: | www.GoBala.org |

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | • Y Bala, Gwynedd, Gogledd Cymru<br>• Map: OS LR125 neu OL23<br>• Maes parcio'r Bala: LL48 6LF; SH920355<br>• Mae ffordd yr A494 yn mynd ar hyd ochr orllewinol y llyn |
| Trails Information: | www.GoBala.org |

www.GoBala.org



## Taith Canŵio:

Gallwch ddilyn nifer o lwybrau gwahanol wrth badlo (gweler y map drosodd), e.e.:

- Taith gron o unrhyw un o'r pwyntiau mynediad (13 cilomedr).
- I fyny ac i lawr y llyn o'r Bala (11 cilomedr).

## Cyfleusterau Llogi Offer a Hyfforddiant:

- Mae cwmni 'Bala Adventure & Watersports' a leolir ar flaendraeth Llyn Tegid yn llogi caiacs y gallwch eistedd arnynt a chaiacs agored.
- Mae hyfforddiant canŵio ar gael, gweler: www.VisitBala.org

## Gwersyllfeydd:

Mae nifer o wersyllfeydd o amgylch y llyn – mae pwyntiau mynediad uniongyrchol i'r llyn o rai ohonynt – gweler y manylion cyswllt am fwy o wybodaeth. Mae hostel ('Backpackers Hostel') hefyd ar gael yn y Bala lle ceir "ystafell ddiferu".

## Gerllaw:

Mae Llyn Efyrnwy a nifer o afonydd yn yr ardal (gweler gwefan Canŵ Cymru).

Mae'r Ganolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol (Canolfan Tryweryn) tua 10 munud i ffwrdd (Frongoch) lle gallwch gaiacio/canŵio ar ddŵr gwyn neu rafftio.

Mae Aber Afon Mawddach tua 40 munud i ffwrdd yn y car ac yn cynnig lleoliad gwych arall i badlo.

## Manylion Cyswllt:

Mynediad: Warden y Llyn, APCE: 01678 520 626; www.eryri-npa.gov.uk

Y Bala : llety, bwyd, atyniadau a mwy: www.VisitBala.org a www.GoBala.org

Y Ganolfan Groeso: yn y Ganolfan Hamdden ger blaendraeth y llyn; 01678 521021

Rheilffordd Llyn Tegid: 01678 540666; www.bala-lake-railway.co.uk

Clwb Hwylio'r Bala: 01678 520118; www.balasc.org.uk

Canŵ Cymru: 01678 521199, www.canoewales.com

Safle Carafanau a Gwersylla Glanllyn: 01678 540441; www.glanllyn.com

Gwersyllfa Pant yr Onnen: 01743 718 283; www.balacamping.co.uk

Gwersyllfa a Pharc Teithiol Pen y Bont: 01678 520549; www.penybont-bala.co.uk

Parc Carafanau a Gwersyllfa Ty'n Cornel (Frongoch): 01678 520759; www.tyncornel.co.uk


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Pam:

- Llyn naturiol mwyaf Cymru
- Golygfeydd godidog o fynyddoedd de Eryri
- Gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol
- Dim cychod modur/mawr
- Atyniadau a gweithgareddau padlo ac awyr agored eraill ar gael

## Tâl Mynediad:

tocynnau o'r peiriant glas yn y maes parcio a Swyddfa Warden y Llyn ym maes parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), Y Bala (£3/diwrnod, £8/wythnos yn 2013)

## Diogelwch:

- Edrychwch am hysbysfyrddau yn rhybuddio am algâu gwyrddlas
- Gwynt – sylwch ar ei gyfeiriad a'i gryfder
- Gwisgwch gymorth hynofedd a dillad priodol
- Mae'r llyn yn ddwfn ac yn oer, hyd yn oed yn yr haf
- Padlwch mewn grŵp
- Byddwch yn ymwybodol o gychod/badau hwylio
- Nid yw APCE yn darparu gwasanaeth achub

## Ymddygiad:

mae ardal eang o amgylch y llyn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), felly defnyddiwch y pwyntiau mynediad dynodedig i fynd i'r llyn a dod i'r lan (gweler y map)

## Taith Canŵio:

gallwch ddilyn nifer o lwybrau gwahanol wrth badlo, e.e.:

- Taith gron o unrhyw un o'r pwyntiau mynediad (13 cilomedr)
- I fyny ac i lawr y llyn o'r Bala (11 cilomedr)

## Cyfleusterau Llogi Offer a Hyfforddiant:

Dyma'r prif Bwyntiau Mynediad (gweler y map):

1 Blaen Llyn Tegid

- Mynedfa wastad i'r llyn
- Maes parcio mawr (talu ac arddangos)
- Toiledau
- Cawodydd (codir tâl)
- Lluniaeth: caffis gerllaw ac yn y Bala
- Swyddfa Warden y llyn

2 Maes parcio Fron Feuno

- Mynedfa i lawr 23 o risiau at flaendraeth y llyn
- Maes parcio

7 Maes parcio Llangywer

- Mynedfa wastad i'r llyn dros y rheilffordd a thrwy'r giatiau
- Maes parcio
- Toiledau

Mae pwyntiau mynediad hefyd ar ffordd yr A494 (Y Bala – Dolgellau) ond nid ydynt mor gyfleus – mae'n rhaid mynd i lawr ramp hir neu risiau.


Mae mynediad preifat hefyd ar gael:

6 Safle Carafanau a Gwersylla Glanllyn: mynediad i'r llyn ar gael: £10/y car yn cynnwys toiledau, cawodydd a pharcio

8 Gwersyllfa Pant yr Onnen: ymwelwyr dydd £6 y diwrnod yn cynnwys parcio a defnydd llawn o gyfleusterau'r wersyllfa (ac eithrio taliadau dŵr)

10 Clwb Hwylio'r Bala

Mae Llangywer yn lleoliad da ar gyfer picnic gyda golygfeydd o'r Arenig.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 / © Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023387



Llyn Tegid yw llyn naturiol mwyaf Cymru. Mae'r llyn tua 3½ milltir (6 cilomedr) o hyd, ¾ milltir (1 cilomedr) o led, dros 140 troedfedd (43 m) o ddyfnder mewn mannau gydag arwynebedd o 10.24$km^2$ neu 1,120 hectar.

Saif Llyn Tegid yng nghanol tirlun mynyddig ysblennydd de Eryri ac mae'n lleoliad poblogaidd ar gyfer caiacio a chanŵio. Mae afon Dyfrdwy yn llifo i'r llyn ar yr ochr ddeheuol ac allan ar yr ochr ogleddol, ger tref y Bala. Ar wahân i'r cychod diogelwch, ni chaniateir cychod modur na chychod/badau hwylio dros 5.8 m. Caniateir cychod trydan.

Mae'r enw 'Bala' yn golygu "man lle bydd afon yn llifo o lyn"

Y prif fynyddoedd o amgylch y llyn yw:

- I'r de mae mynyddoedd yr Aran, mae crib yr Aran yn codi o ochr ddeheuol y llyn at Aran Benllyn (2,904 tr/885 m) ac Aran Fawddwy (2,969 tr/905 m).
- I'r gorllewin mae mynyddoedd yr Arenig, yr Arenig Fawr (2,800 tr/854 m) yw'r prif gopa.
- I'r gogledd-ddwyrain a'r dwyrain mae mynyddoedd y Berwyn.

Saif Llyn Tegid mewn dyffryn eang, a ffurfiwyd yn wreiddiol gan ffawt daearegol mawr a ddyfnhawyd yn ddiweddarach gan rewlifiant. Roedd y llyn yn llawer mwy o faint nag ydyw heddiw ac fe'i ataliwyd mwy na thebyg gan farian rhewlifol hyd nes i erydiad ostwng lefel y dŵr a'i leihau gan ei lenwi â gwaddodion. Roedd ochr ogleddol y llyn yn ymestyn ymhellach nag ydyw heddiw, ac roedd yn cynnwys yr ardal lle saif tref y Bala a Bodweni (i'r gogledd-ddwyrain o'r Bala). Roedd ochr ddeheuol y llyn hefyd yn ymestyn llawer ymhellach, hyd at Lanuwchllyn.

Ffurfiwyd y mynyddoedd yn wreiddiol tua 500 miliwn o flynyddoedd yn ôl, gwaddodwyd y llethrau isaf o dan y môr a ffurfiwyd y mynyddoedd uwch a mwyaf garw gan weithgaredd folcanig, yn cynnwys mynyddoedd yr Aran a'r Arenig.

Mae chwedl lleol yn adrodd i'r llyn gael ei greu fel cosb am gamweddau Tegid Foel – tywysog lleol. Yn ôl yr hanes, cafodd ei blasdy a'r holl drigolion eu boddi un noson yn ystod parti meddw, wedi i'r gwylwyr anghofio gosod caead ar y ffynnon hud. Dim ond un a lwyddodd i ddianc – sef y telynor a gafodd ei arwain i ddiogelwch gan aderyn bychan a ganodd drosodd a throsodd, "Dial a ddaw …". Pan ddeffrodd ar ochr y bryn yn y bore, gwelodd fod llyn enfawr yn llenwi'r dyffryn a'i delyn yn arnofio ar wyneb y dŵr! Mae hanesion mwy diweddar yn adrodd am anghenfil – o'r enw Tegi – sy'n llechu yn nyfnderoedd y llyn. Yn 1995 bu llong danfor fechan o Siapan yn cynnal arolwg o dan y dŵr ond ni ddaeth o hyd i'r anghenfil!

## Bywyd Gwyllt

Mae cyfoeth o fywyd gwyllt a phlanhigion i'w gweld yn Llyn Tegid a'r ardal gyfagos. Mae'r llyn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac yn safle gwlyptir Ramsar o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r llyn ei hun yn gartref i 14 rhywogaeth o bysgod, yn cynnwys y Gwyniad, pysgodyn gwyn sy'n unigryw i Lyn Tegid. Mae glannau'r llyn yn gartref i'r falwen ludiog, a dyma'r unig fan y'i gwelir yn y Deyrnas Unedig. Mae dyfrgwn hefyd i'w gweld yn Llyn Tegid drwy gydol y flwyddyn. Mae'r isafonydd a'r nentydd hefyd yn cynnig digonedd o fwyd a chynefinoedd magu i'r dyfrgwn.

Mae nifer o hwyaid i'w gweld yma hefyd, yn eu plith yr hwyaden wyllt, yr iâr ddŵr, y cwtiar, y corhwyad, yr hwyaden gopog a'r hwyaden llygad aur. Mae'r hwyaden bengoch a'r chwiwell yn gaeafu yma, ac mae'r llyn yn fagwrfa i'r wyach fawr gopog a'r wyach leiaf. Mae gwyddau hefyd i'w gweld yma, megis gwyddau Canada a gwyddau gwylltion.



Ar lannau'r llyn, efallai y gwelwch yr adar canlynol: pibydd y traeth, cwtiad torchog bach, gwybedog cefnddu, pela gynffon hir, dryw'r helyg, penddu'r brwyn, y cripianydd a chnocell y cnau.

Dros y blynyddoedd, mae tua 139 rhywogaeth o adar wedi'u gweld o amgylch y llyn, yn cynnwys rhai anghyffredin iawn megis y trochydd mawr, elyrch Bewick a phibydd gwyrdd y traeth. Ymhlith rhai o'r adar mwy cyffredin sydd i'w gweld yma mae adar ysglyfaethus megis: y cigfran, y barcud coch, y boncath, y boda dinwen, yr hebog tramor, gosog, cudyll coch, y cydull bach a'r gwalch glas. Mae rhywogaethau eraill yn cynnwys: y dylluan frech, y dylluan felynddu, cnocell y coed, ehedydd, creyr glas, glas y dorlan, mwyalchen y dŵr a'r sigl-i-gwt.

O amgylch y llyn, efallai y gwelwch rai o'r mamaliaid sy'n byw yno, megis: dyfrgwn, gwiwerod llwyd, cwningod, ysgyfarnogod, moch daear, draenogod, tyrchod daear, llwynogod, minc, carlymiaid, gwencïod, llŷg, llygod y gwair, llygod y maes, ffwlbartiaid.